Wrth gofio'r "ysgol" llwyd ei gwedd –
Y dysgu brwd, a'r chwarae iach –
A llawer bywyd – llawer bedd –
Rhaid gwenu – ac wylo deigryn bach.

Llundain — Ben Davies

*[1]Llifai nant heibio'r ysgoldy.
*[2]O'r ochr arall iddo yr oedd mynwent yr Eglwys.
*[3]Y Parchg. Jonah Evans, – Yr Athro (1836-1896).[24]

Symudwyd yr ysgol o'r adeilad uchod ac fe'i cynhaliwyd yn Festri Capel Siloh am gyfnod, ond, yn ddiweddarach, codwyd ysgol newydd, sef yr Academi. Adwaenir yr adeilad fel 'Yr Academi' hyd heddiw. Diddorol yw cyfeirio hefyd at y ffaith fod Jonah Evans wedi llafurio'n galed er mwyn codi Capel Siloh. Bu Evan Jones, Crug-y-bar yn cydweithio ag ef, Agorwyd y capel ym mis Hydref, 1869 ac ym 1870, ordeiniwyd Jonah Evans i gyflawni gwaith y weinidogaeth fel cynorthwy-ydd i Evan Jones yn Siloh a Chrug-y-bar. Wrth gwrs, 'roedd hynny tua phedair blynedd wedi i Jonah Evans ddod i'r ardal.

Bu'n weithgar iawn yn y cylch ond daeth ei yrfa i ben yn hollol ddisyfyd. Ar y prynhawn ola' ym mis Mawrth, 1896, 'roedd ar ei ffordd o Lansawel i Felinfach – taith gerdded o sawl milltir, i'w alluogi i fod yn bresennol yn angladd ei frawd-yng-nghyfraith bore drannoeth. Pan oedd ond chwarter milltir o'r lle, bu farw. Daethpwyd o hyd iddo y bore canlynol. Yn ei law 'roedd y ffon a fu'n gymorth iddo ar lawer taith gerdded. Pan ddygwyd ei gorff yn ôl i'w gartref y prynhawn hwnnw, bu galar ymhlith ei deulu, ei fyfyrwyr a'i gyfeillion. Profwyd mai clefyd y galon oedd achos ei farwolaeth, a hynny'n gynt na'r disgwyl oherwydd gorgerdded. Roedd yn drigain oed.

Daeth tyrfa luosog i'w angladd ar Ebrill y 4ydd. Yn eu plith yr oedd Derwenydd Morgan, un o blant Esgairdawe, a fu'n fyfyriwr yn ysgol Jonah Evans am gryn dipyn o amser. Dychwelasai o'r Amerig, lle 'roedd yn weinidog yn Kansas, a chyn ymadael â'r cartref am Gapel Siloh llefarodd ychydig eiriau a rhoi emyn allan i'w ganu. Wedi gwasanaeth yn y capel claddwyd Jonah Evans ym meddrod ei briod a fu farw ym mis Chwefror, 1883 yn ddeugain a dwy oed.

Bu amryw a fu'n gysylltiedig ag Eglwys Esgairdawe yn fyfyrwyr mewn ysgolion a cholegau eraill hefyd megis Ysgol Baratoawl Pontypridd; Athrofa'r Bala; Ysgol y Gwynfryn ac

Ysgol Watcyn Wyn, Rhydaman; Ysgol Ramadeg Llanybydder; Ysgol Myrddin, Caerfyrddin; Hen Goleg Caerfyrddin; Coleg Bala-Bangor; Coleg y Brifysgol, Caerdydd; Coleg Dewi Sant, Llambed; Coleg Diwinyddol Llandâf; Coleg y Brifysgol Aberystwyth; Coleg Coffa Aberhonddu ac Abertawe.

Gellir olrhain gwreiddiau'r Coleg Coffa yn ôl i ddwy academi, un a sefydlwyd gan Samuel Jones, Brynllywarch a'r llall gan Rhys Prydderch, Ystradwallter yn yr ail ganrif ar bymtheg. Piwritaniaid oedd y rhain a gafodd eu herlid wrth gyflawni eu gwaith. Yn Llwynllwyd, unwyd y ddwy academi gyda'i gilydd, ond ym 1757 pan oedd y coleg ymneilltuol hwn wedi ymsefydlu yng Nghaerfyrddin, cafwyd rhwyg eto. Arhosodd un rhan yng Nghaerfyrddin ond crwydrodd y llall i Abergafenni yn gyntaf, yna i'r gogledd cyn ymsefydlu yn Aberhonddu ym 1839, o dan nawdd y Bwrdd Annibynnol. Fe'i galwyd yn 'Goleg Coffa' er mwyn coffáu'r "Troad Allan" ym 1662. Bu Coleg Caerfyrddin yn crwydro hefyd ond dychwelodd yno a chael ei adnabod fel y 'Coleg Presbyteraidd' am ei fod o dan nawdd y 'Bwrdd Presbyteraidd'.

Gan nad oedd digon o Annibynwyr yn y 'Coleg Coffa' a 'Choleg y Presbi', penderfynwyd uno'r ddau a sefydlu coleg unedig yn Abertawe. Cafwyd adeilad pwrpasol yn 'Ffynhonnau' y tu ôl i Heol Walter, a chynhaliwyd cyfarfodydd agor a chysegru 'Coleg Coffa'r Annibynwyr' ar Dachwedd 27ain, 1959. Llywydd y seremoni agoriadol oedd y Parchedig W. Griffith-Jones, rheolwr yr Eglwysi Annibynnol Saesneg yng Nghymru. Agorwyd drws y coleg newydd gan Miss Sarah Bevan o Langennech. Bu ei diweddar frawd, sef Thomas Bevan yn gymwynaswr hael i Goleg Aberhonddu. Cyflwynwyd yr allwedd iddi gan y Prifathro W.T. Pennar Davies, – un a fu'n dal cysylltiad â cholegau'r Annibynwyr am gyfnod maith – Athro Coleg Bala-Bangor, 1946-50; Athro Coleg Aberhonddu, 1950-52; Prifathro Coleg Aberhonddu, 1952-59 a Phrifathro Coleg Coffa Abertawe, 1959-79. O hynny hyd 1981 bu'n Brifathro Emeritus yng Ngholeg Coffa Aberystwyth.

Yng nghyfarfod y prynhawn, y diwrnod hwnnw, yng Nghapel Heol Walter, cafwyd neges oddi wrth y Patriarch Athro John Evans, Aberhonddu yn dymuno'n dda i'r fenter. Roedd dros ei gant oed ar y pryd ac wedi llafurio'n ddyfal yng Ngholeg Aberhonddu am gyfnod maith. Dair blynedd cyn hynny, sef

ym 1956, 'roedd yn bresennol yng nghyfarfodydd dathlu hanner can mlynedd o weinidogaeth y Parchedig D. Rhydderch yn Llandysul. Bu'r hen athro yn cyfarch un a fu'n fyfyriwr iddo ar ddechrau'r ganrif hon. Gellir enwi eraill a fu'n gysylltiedig â Choleg Aberhonddu, sef Joseph Jones a benodwyd yn Athro ym 1907 ac yn Brifathro ym 1943, yr Athro Henry Lewis a J.D. Vernon Lewis a fu'n Athro yn y Coleg o 1935-56 a Phrifathro o 1950-52.

Bu rhan bwysig i'r Coleg Coffa yn hanes crefydd yng Nghymru ac yn y byd. Hyfforddwyd efengylwyr, cenhadon, diwygwyr ac ysgolheigion yno. Diddorol yw cofnodi bod pump o weinidogion Capel Esgairdawe wedi bod yn fyfyrwyr o'r Coleg Coffa, – Henry Jones, David Williams, Giraldus Jones a Hywel T. Jones yn Aberhonddu a Guto Prys ap Gwynfor yn Abertawe.

Mae'r Undodiaid yn cydweithio yn y Coleg Coffa hefyd a derbynnir myfyrwyr o wahanol enwadau. Yn y saithdegau, manteisiwyd ar y cyfle i ddathlu trichanmlwyddiant y sefydliad, yng nghwmni'r prifathro W.T. Pennar Davies a'r athrawon, – D.L. Trefor Evans, Maurice Loader, Dewi Eirug Davies a D. Elwyn Davies, darlithydd. Bu E. Lewis Evans yn darlithio yno yn y flwyddyn 1975-6.

Bu'r Coleg yn sefydlog yn Abertawe hyd 1979 pan gododd ar ei adain unwaith eto, gan ymsefydlu yn Heol y Wig, Aberystwyth. Coleg Diwinyddol ydyw mewn cyswllt swyddogol ag Ysgol Ddiwinyddiaeth Newydd Aberystwyth a Phrifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Oherwydd prinder ymgeiswyr am y weinidogaeth a'r draul ychwanegol i gynnal Colegau Diwinyddol, penderfynwyd uno Coleg Bala-Bangor a'r Coleg Coffa. Bellach, adnabyddir y sefydliad fel 'Coleg Unedig yr Annibynwyr Cymraeg'.

Mae'n syndod bod capel gwledig fel Esgairdawe wedi dal cysylltiad â chynifer o bobl a sefydliadau a diau i'r cyfryw fod o gymorth i beri parhad yr eglwys. Sylweddolwn nad rhywbeth ynysig yw capel. Dibynna'r aelodau ar gefnogaeth a gweledigaeth unigolion ac amrywiol gymdeithasau. Byddai diadell fechan, fel sydd yn Esgairdawe ar hyn o bryd, yn ddigalon iawn wrth wynebu'r dyfodol oni bai am y diddordeb a ddangosir gan eraill yn y sefydliad. Rhaid cyfaddef, er hynny, bod y cysylltiadau hyn fel pe baent yn lleihau gyda threigl y

blynyddoedd, er bod gwell cyfleusterau yn addysgiadol a theithiol. Hwyrach bod prinder gweinidogion a diffyg sêl aelodau eglwysig yn ddwy ffactor sy'n gyfrifol am y dirywiad. Nid oes angen llawer o ymdrech na dewrder i fynychu lle o addoliad heddiw, a'r hyn sy'n amlwg yw'r ffaith mai adeg yr erlid yr oedd crefydd gryfaf yn ein gwlad.

[1] *Y Dysgedydd,* 1876, tt. 298-300, Erthygl J.R. Kilsby Jones.
[2] *Trem yn Ôl neu Oes Gofion,* D. Derwenydd Morgan, 1940, tt. 10, 11, 12.
[3] *Hen Dŷ Ffarm,* D.J. Williams, 1953, tt. 16, 17.
[4] Cofrestr yr Eglwys, 1859-1913.
[5] *Hen Dŷ Ffarm,* D.J. Williams, 1953, tt. 17, 18.
[6] Ibid, tt. 115, 116.
[7] Ibid, tt. 175, 176.
[8] *Crwydro Sir Gâr,* Aneirin Talfan Davies, 1955, t. 141.
[9] Sylwadau o bregeth Guto Prys ap Gwynfor ar 'Egwyddorion yr Annibynwyr', Ebrill 24ain, 1988.
[10] Ibid.
[11] Ibid.
[12] *Yr Undeb,* R. Tudur Jones, 1975, t. 19.
[13] Ibid, t. 21.
[14] Ibid, t. 318.
[15] Ibid, t. 415.
[16] Y Cyfarfodydd Blynyddol, 1986, Undeb yr Annibynwyr, t. 71.
[17] Stori Tŷ John Penry, E. Curig Davies, 1959, t. 3.
[18] Taflen Cyfundeb Annibynnol Ceredigion, Tachwedd 11, 1920.
[19] Taflen Cyfundeb Ceredigion, Mawrth, 1960.
[20] *Cerddi Ysgol Llanycrwys,* Dan Jenkins, 1934, t. 27.
[21] *Blodeuglwm i Goffa y Parch. Jonah Evans,* T. Eli Evans, 1907, t. 35.
[22] Ibid, t. 74.
[23] Ibid, 75.
[24] *Cerddi Ysgol Llanycrwys,* Dan Jenkins, 1934, t. 99.

# XIV

# DIWEDDGLO

Ni ddaeth llawer o ffeithiau ynglŷn ag adeiladu'r tri addoldy i'r fei, ond pwysicach a gwerthfawrocach yw'r hanesion am yr eglwys a fu'n cyfarfod yn Esgairdawe am dair canrif. Bu'n ganolfan i addoli Duw ac yn fodd i ddyrchafu bywyd yr addolwyr.

Gwaetha'r modd, daeth dyddiau'r trai ar grefydd. Ychydig sy'n mynychu'r capel bellach, – canlyniad diboblogi, mewnlifiad estroniaid i'r ardal ac, yn waeth na dim, difaterwch y Cymry. Beth pe baem ni heddiw, fel ein cyndeidiau, yn cael ein cosbi am addoli yn ein capeli a'n heglwysi? Ymddengys fel pe bai hynny'n digwydd o ganfod yr holl seddau gweigion o Sul i Sul. Mae'r sêl cynhenid wedi oeri, – y capeli'n gwacáu oherwydd bod teuluoedd cyfain wedi cefnu ar le o addoliad.

Cred amryw mewn cymdeithas fod yna nifer o ffactorau sy'n gyfrifol am y trai ar grefydd yn yr oes hon. Dichon fod bywyd yn rhy hawdd ac nad oes angen cymorth fel cynt. Yn nechrau'r ganrif, 'roedd bywyd yn galed, gyda chwarter y plant yn marw'n ifanc o gymharu ag un o bob cant heddiw. Roedd y darfodedigaeth yn lladd llawer yn eu hugeiniau a'r canol oed. Tyrrai'r bobl i'r capel yn eu gofidiau a'u colledion. Roeddent yn ofni 'dydd y farn' hefyd ac yn credu mai uffern oedd yn aros y rhai na fynychent le o addoliad. Ceisio osgoi uffern oedd hanfod ac ystyr crefydd iddynt. Ni chlywir sôn am uffern o bulpudau Cymru heddiw na sôn am ddydd y farn chwaith. Bernir fod angen mwy o 'dân a brwmstan' o'n pulpudau fel bo gweinidogion a phregethwyr lleyg yn 'marchnata' Cristnogaeth yn union fel y gwneir wrth werthu nwyddau. Oes faterol yw ein hoes ni. Rhoir pwyslais ar bethau ac nid ar bersonau a bernir fod ariangarwch wedi seciwlareiddio gwledydd Ewrop.

Er gwaethaf cyflwr crefydd yr oes hon, nid peth newydd ydyw yn ôl yr hyn a ymddangosodd yn y *Dysgedydd* ym 1876. Digalon

iawn oedd y sefyllfa tua chanol y ganrif ddiwethaf, a hynny am reswm arbennig:

> Oddeutu ugain mlynedd yn ôl, yr oedd llawer o garedigion crefydd yn Lloegr yn dechrau ofni fod tymor pregethu ar ben – fod y wasg yn cyflym gymeryd lle y pulpud – fod y miloedd wedi troi eu cefnau am byth ar ein haddoldai. Gwir yr addefid fod pregethu wedi bod yn allu dirfawr yn yr amser gynt; ond credid fod yr argraffwasg wedi newid pethau erbyn hyn, a haerid na fuasai y llais a ysgydwai dyrfaoedd yr oes o'r blaen yn cael dim mwy o ddylanwad ar gorff y bobl yr oes hon nag efydd yn seinio neu symbal yn tincian.[1]

Yn yr erthygl hon, o dan y teitl, 'Spurgeon', dywed Dewi Môn, yr awdur, mai'r wasg oedd yr unig gyfrwng i oleuo'r cenhedloedd yn yr oes honno, a hynny yn nhyb pobl synhwyrol, duwiol a da. Digwyddai Dewi Môn fod yn Llundain y pryd hwnnw a chlywodd fod gŵr ifanc wedi ei sefydlu'n weinidog yng nghapel 'New Park Street', a'i fod yn tynnu'r tyrfaoedd i wrando arno. Aeth Dewi Môn a'i gyfaill yno un nos Sul:

> ond erbyn i ni fyned yno, yr oedd y capel yn orlawn ym mhell cyn dechrau yr oedfa, a da oedd gennym allu ymwthio i'r ysgoldy, lle gallem, prin, gael lle i sefyll yn y tyndra anoddefol – lle y gallem glywed llais y pregethwr, er nas gallem weled ei berson.[2]

Aethant yno eto ar noson waith, gan dybied y caent ddigon o le, ond er syndod iddynt, yr oedd yno gynifer yn y gynulleidfa ag o'r blaen. Er hynny, llwyddodd y ddau i weld a chlywed y pregethwr y tro hwn. Pwy oedd y gŵr hwn a dynnai'r miloedd i wrando ar ei genadwri? Neb llai na Charles Haddon Spurgeon, 1834-92. Gweinidog gyda'r Bedyddwyr ydoedd. Daeth i Lundain ym 1853 a bu'n pregethu i gynulleidfa o oddeutu tair mil o bobl am ddeng mlynedd ar hugain. Edmygai Dewi Môn a'i gyfaill ddewrder Spurgeon a ffydd ei wrandawyr. Ar y noson waith honno, bu'r pregethwr yn bedyddio nifer mawr o bobl ar ôl pregethu ar destun o Lyfr y Salmau a chyfeirio at 'rwymo yr aberth â rhaffau, hyd wrth gyrn yr allor':

> rhoddwyd ar ddeall i ni yn y man mai un o 'gyrn yr allor' yw y droch, ac mai gwaith y credadyn yn cymeryd ei drochi sydd i'w olygu wrth rwymo aberth wrth y corn hwnw,[3]

Mae'r Bedyddwyr yn cyfeirio at fedydd fel 'aberth' ac yn taeru mai'r un yw ystyr mynd i mewn i'r afon â'r ymadrodd 'cyfodi

y groes' a geir yn y *Testament Newydd.* Cyfnod anodd i bregethu oedd hwnnw pan ddechreuodd Spurgeon ar ei weinidogaeth, ond llwyddodd i ddenu'r miloedd i wrando arno ac i dderbyn Crist i'w bywydau.

Mae'n dyled ni'r Cymry hefyd yn fawr i'r capel. Dyma ganolbwynt ardaloedd gwledig a threfol hyd y blynyddoedd diwethaf. Bu dylanwad oedfaon crefyddol yn fodd i feithrin hunan-hyder a sicrwydd ym mywyd plant a phobl ifainc. Cododd ein hynafiaid gapeli mawrion yn agos at ei gilydd. Roedd eu ffydd a'u hymddiriedaeth yn Nuw mor ddwfn fel y tybient y byddai galw am addoldai ymhob cyfnod, ar bob cenhedlaeth. Ond, daeth tro ar fyd. Mae cadw'r adeiladau hyn mewn cyflwr boddhaol a'u gwresogi hefyd yn ormod o faich i gynulleidfaoedd bychain yr oes hon, ie, "y blychau sgwâr, afrosgo, trwm", chwedl T. Rowland Hughes. Mae eu tynged yn y fantol a chlywir am nifer ohonynt yn cau eu drysau am y tro olaf. Gadewir capeli gwledig i ddirywio gydag "amser swrth a'r hin". Golygfa drist yw honno oherwydd bod addoldai gwledig, dinod yn ein hatgoffa o'r tlodi enbyd a wynebai'r werin bobl tua chanrif a hanner yn ôl.

Caiff capeli trefol eu dymchwel a'u chwalu er mwyn rhoi lle i ffatri neu archfarchnad. Dengys llawer ohonynt bensaernïaeth gelfydd a ddylai gyfiawnhau eu hachub. Gofynnwn y cwestiwn, "A oes angen eu cadw ar gyfer yr oes a ddêl?" A barnu wrth yr hyn a ganfyddwn bron ymhob oedfa, mae'r ateb yn nacaol. Pobl sydd dros y canol oed yw'r mwyafrif o'r gynulleidfa, boed oedfa arferol ar y Sul neu ddarllediad o'r rhaglen "Dechrau Canu, Dechrau Canmol" a welir ar y teledu ar nos Sul. Pe baem yn tynnu'r rhain allan o'r gorlan byddai nifer y gweddill yn ddigalon. Er hynny, mae yna nodyn gobeithiol o ganfod ambell sedd yn llawn o ferched neu fechgyn ifainc. Dyma'r "lefain yn y blawd" a phwy a ŵyr na ddaw'r llanw eto ac y gwelir effaith diwygiad arall cyn bo hir?

Bu cryn sôn yn y blynyddoedd diwethaf am uno'r enwadau. Bellach, daeth hyn yn realiti mewn rhai ardaloedd oherwydd y lleihad dybryd yn nifer yr aelodau a phrinder gweinidogion. Ceir tyndra rhwng y dwyfol a'r materol. Denir pobl ifanc ein hoes i'r tafarnau, ac awgrymir yn yr Alban mai peth doeth fyddai mynd â'r eglwys i'r dafarn er mwyn dod o hyd i'r bobl yn y mannau lle maent. Cofiwn mai ar ben coeden yr oedd

Sacheus pan dderbyniodd yr Arglwydd Iesu i'w fywyd.

Mae hanes yn ddiderfyn. Caiff ei greu a'i groniclo o ddydd i ddydd. Ond beth sydd i'w ddweud am gapel gwag heb eglwys yn ymgynnull o'i fewn? Tybed ai dyna fydd hanes Capel Esgairdawe cyn diwedd y degawd nesaf. Mae'n wir fod angen capel a chysur yr Efengyl ar deuluoedd wrth wynebu profedigaethau. Ar yr adegau hyn yn unig y gwelir ambell gapel yn orlawn heddiw. Dyma eiriau John Roberts Williams, wrth edrych dros ei sbectol ar raglen Radio, Tachwedd 17eg, 1989 gan gyfeirio at angladd mewn capel yn Eifionnydd:

"Rydym yn rhai da am ffarwelio, beth bynnag am gynnal". A fydd yma, yng Nghymru, gynulleidfaoedd i bregethu iddynt erbyn troad y ganrif? Pe gwireddid geiriau Lewis Valentine, byddai'r ateb yn gadarnhaol:

Dros Gymru'n gwlad, O! Dad, dyrchafwn gri, –
Y winllan wen a roed i'n gofal ni;
D'amddiffyn cryf a'i cadwo'n ffyddlon byth,
A boed i'r gwir a'r glân gael ynddi nyth;
Er mwyn dy Fab a'i prynodd iddo'i Hun,
O! crea hi yn Gymru ar dy lun.

O! deued dydd pan fo awelon Duw
Yn chwythu eto dros ein herwau gwyw,
A'r crindir cras dan ras cawodydd nef
Yn erddi Crist, yn ffrwythlon iddo Ef;
A'n heniaith fwyn â gorfoleddus hoen
Yn seinio fry haeddiannau'r addfwyn Oen.[4]

[1]*Y Dysgedydd,* 1876, t. 301.
[2]Ibid.
[3]ibid.
[4]*Rhaglen Cymanfaoedd Canu,* 1987-88, t. 67, Tŷ John Penry.

# ATODIAD

Penillion a gyflwynwyd i'r Parchedig Henry Jones ar ei ymddeoliad o'r Weinidogaeth ym 1899:

Enw Henry Jones a bery
  Ar ei ôl mewn anial fyd,
I fynegu prydferth deithi
  Ei gymeriad ef o hyd;
Er i'w oes flagurog wywo,
  Blodau ei nodweddion fydd
Etto'n aros i addurno
  Man ei fedd fel blodau'r dydd.

Troedyrhiw, yn Sir Forganwg,
  Ga'dd y fraint o siglo'i gryd,
Yno ganwyd ei obeithion
  I genhedlu ffeithiau'i fyd;
Ond yn Ffaldybrenin cododd
  I ganolbwynt canol dydd,
Awyr Ffaldybrenin dynodd
  Wres ei gariad – nerth ei ffydd.

Mab dyddanwch ei eglwysi
  Fu, a brenin drwy ei oes,
Un a berchid gan ei gwmni
  Ac a gerid am ei foes;
Ei hyfrydwch drwy'r blynyddau
  Oedd Tŷ Dduw a gorsedd gras,
A thawelwch digymylau
  Crefydd y ffurfafen las.

Hen fyfyriwr esboniadau
  A phregethwr iach ei ffydd,
Fu yr hen weinidog tyner
  Ddaliodd bwys a gwres y dydd;
Rhoddodd ystyr i ffyddlondeb,
  Rhoddodd bwys ar fod yn bur,
Ac ymledodd ei dduwioldeb
  Yn ddylanwad dros y gwir.

Pur weledydd nef-feddyliau
  Fu efe ar hyd ei oes,
A chofiadur hen adnodau
  Garient sylwedd 'stori'r Groes;
Trafod dail ei benaf gyfrol
  Ganwaith wnaeth yn ngwyll y nos
Er i oleu'r byd ysbrydol
  Liwio dail ei grefydd dlos.

Perlau Duw o Ffaldybrenin
  Adgynhullir ddydd a ddaw,
Goleu'r wlad ddi-nos ddatguddia
  Dlysni'r rhain yr ochr draw;
Yna'r Brenin a gyhoedda
  Am it' gasglu 'rhain yn nghyd, –
Henry Jones o Ffaldybrenin
  Dos i fewn a gwyn dy fyd.

Hwyr-ddydd tawel – llon gyfeillion
  Nef-freuddwydion fo ei ran,
Cluded dynion ac angelion
  Dlysion iddo o bob man;
Caffed dyner law i'w 'ddiffyn
  Dan y gronglwyd lle bu ef
Yn cyfnewid ei feddyliau
  Am feddyliau Duw y Nef.

Wedi'r daith – daeth rhosydd Moab,
  Do – a gweledigaeth glir,
Gwel ei wlad, a'i phomgranadau,
  Gwel ei haul, a'i hafon bur;
Archoffeiriad mawr y Nefoedd
  Ddaw i'w gyrchu maes o law
Yn bererin dros yr afon
  I'w orphwysfa'r ochr draw.

NEDDFRYN[1]

Cyfarchion i'r Parchedig Giraldus Jones ar gyrraedd ei bedwar ugain oed ar Fedi 12fed, 1975:

Ein bugail hoff, cyfarchwn chwi,
  A hynny yn ddioed,
A chwithau'n dathlu yn ein plith
  Eich pedwar ugain oed;
O'r lofa gynt yr aethoch draw
  I Aberhonddu gu,
'Rôl cwrs yng Ngholeg Coffa'r dre
  Fe ddaethoch atom ni.

Pregethwyd gennych gyda graen
  Wrth draethu'r Gair i'n clyw,
Gan ddangos inni'n eglur iawn
  Ragoriaeth teyrnas Dduw:
Os gofid ddeuai ar ein rhan
  Neu ddydd o lawen hwyl,
Eu rhannu'n ffyddlon wnaethoch chwi,
  Boed ddiwrnod gwaith neu Ŵyl.

Am saith a deugain mlynedd gron
  Y buoch gyda ni –
Nid oes un bugail yn y fro
  Fu'n aros fwy na chwi:
Eich priod hoff sy'n gymar gwir
  I'ch helpu gyda'r gwaith,
Teilynga'n gwerthfawrogiad ni
  Am gymorth ar y daith.

Pob bendith eto i chwi'ch dau
  I ddyfod ar y Sul,
I'n harwain ac i'n cadw ni
  Ar hyd y llwybr cul;
A dyma yw'n dymuniad oll –
  Oedolion ac yn blant,
Y cewch chi iechyd ar eich taith
  I fyw i weld y cant.

M.E. WILLIAMS[2]

## Soned er cof am Mrs. Mary Anne Jones, priod y Parchedig Giraldus Jones, a hunodd Gorffennaf 30ain, 1977:

Fin nos o haf ym mis Gorffennaf mwyn,
Distawodd llais un annwyl iawn i ni,
Ei siriol wên o hyd yn llawn o swyn –
Ni welwyd neb mor dyner ac mor gu;
I'w phriod hoff, bu'n gymorth gwir bob cam
Drwy ei diddordeb ymhob rhan o'i waith,
Y Mans a gadwai beunydd heb un nam
A'i chroeso'n bur a diddan ar y daith,
Roedd yn ei chalon gynnes le bob awr
I'r holl oedfaon ac i'r Ysgol Sul,
Gan lwyr esbonio'r Gair i blant y llawr
I'w harwain hwy ar hyd y llwybr cul;
Os briw yw'n bron, diolchwn nawr i Dduw
Am gael adnabod un a fu mor driw.

M.E. WILLIAMS[3]

Gŵr sydd â'i wreiddiau'n ddwfn ym mro Esgairdawe yw D.T. Evans, Llys Helen, Cwm-ann, fel y cyfeiriwyd eisoes. Cyfansoddodd lawer o farddoniaeth gan gynnwys emynau a charolau. Dyma rai enghreifftiau:

a. *Emyn i Blant*
(Yr Ysgol Sul)

Awn i'r Ysgol Sul i ddysgu
Ac i siarad am yr Iesu,
Canu'i glodydd a gweddïo
Am gael gwybod mwy amdano.

Darllen yr adnodau hyfryd
Sydd yn sôn am Arglwydd bywyd,
Darllen hefyd am y gwersi
Ddysgwyd gan ddisgyblion Iesu.

Holi, ateb a myfyrio,
Chwilio am y gwir, a'i ffeindio
Yn ei wyrthiau a'i ddamhegion,
Felly dysgodd ei ddisgyblion.

Nid oes Athro tebyg iddo,
Fe geir pob gwirionedd ganddo,
Ef sy'n dethol y bendithion
Gaiff ei holl ddisgyblion ffyddlon.

Rhoddwn ninnau'n gorau iddo,
Ar ei wersi boed in' wrando,
Am yr Ysgol Sul diolchwn,
Am yr Iesu, gorfoleddwn.[4]

b. *Atgof*

Defaid ac ŵyn ar y bryniau,
  Adar ym mrigau'r coed,
Mantell o flodau amryliw –
  Dyna fel y bu erioed.

Miwsig y nant yn y dyffryn,
  Cân yr ehedydd uwchben,
Lleisiau'r bugeiliaid yn galw
  Ar Carlo a Ffan a Ben.

Curiad morthwylion y gofaint,
  A chwynfan llifiau y saer,
Cloch fach yr eglwys yn tincian
  Yr alwad i foli, mor daer.

Mynwent â'i beddau teuluol,
  Gorffwysfa hen saint y fro,
Heddiw fel doe mae atgofion
  Yn plycio cortynnau'r co'.

Defaid ac ŵyn ar y bryniau,
  Adar ym mrigau y coed,
Mantell o flodau amryliw –
  Dyna fel y bu erioed.[5]

c. *Cyfoeth y Weddw*

Ar ael y bryn mae bwthyn,
  Dihafal fwthyn gwyn,
Lle trigai mam a'i theulu
  Ynghanol dyddiau prin:
Ychydig iawn o bethau
  Y byd oedd ganddi hi, –
Ond gwyddai am ryw gyfoeth
  Tu hwnt i'm dirnad i.

Nid gemau aur nac arian
  Oedd ei thrysorau cain –
'Roedd addurniadau lliwgar
  Ei thŷ yn well na rhain;
Cadernid ffydd mewn gweddi –
  Hwn oedd ei chyfoeth hi,
A'r hunan-aberth gwyrthiol
  Fu'n waddol oes i mi.[6]

ch. *Emyn*

Diolch am y rhyfeddodau
  Ddaw o'r nef i deulu'r llawr,
Rhyfeddodau sy'n gwefreiddio
  Bywyd, â thrysorau mawr:
Cariad, sydd yn fythol fendith
  I bechadur ar ei daith,
Ac yn sail y bywyd cyflawn
  Ar y bererindod faith.

Fe ddaeth Iesu, Hwn yw'r bugail
  Sydd yn arwain dyn i'r nef,
Yn ei gwmni, gorfoleddwn,
  Brenin bywyd ydyw Ef:
Rhoddodd Ef ei Hun yn aberth
  Ar y groesbren drosom ni,
Ond, mae heddiw ar yr orsedd,
  Er yr ing ar Galfari.[7]

Bu Cyril Anthony yn organydd Eglwys y Tabernacl, King's Cross, Llundain am ddeugain mlynedd. Ar adeg y Nadolig, 1982, bu farw ei briod, Rowena, ym mlodau ei dyddiau. Cyfansoddodd Cyril y dôn, 'Rowena' er cof amdani, gan ddefnyddio geiriau'r emyn canlynol o waith D.T. Evans, oherwydd i'r ddau deulu rannu eu cyfeillgarwch am nifer o flynyddoedd.

d. Plygu wnaf yn wylaidd
Arglwydd, ger dy fron,
Gwn dy fod yn gwrando
Ar y weddi hon:
Gwyddost am fy meiau,
Gwyddost 'mod i'n dlawd,
Ond, mae gennyf gwmni –
Rhoddaist imi frawd.

Erys hwn yn agos,
Rhydd i mi ei law,
Y mae'r daith yn felys,
Cilio wna pob braw:
Y mae'r troeon dyrys
Yn diflannu'n llwyr,
Gwelaf haul y bore
Uwch cysgodion hwyr.

Diolch am dy roddion
A'r bendithion lu,
Diolch mwy am Iesu –
Brawd a chyfaill cu:
Fe ddilëir fy meiau
Yn ei gwmni Ef,
Yna, hawdd fydd canu
Am ogoniant nef.[8]

dd. *Diolch i'r Iôr*

Diolch i'r Iôr am flodau'r wlad,
Am awyr las a heulwen mad,
Mi roddaf glod am roddion rhad –
Diolch i'r Iôr.

Diolch i'r Iôr am hwyrnos fwyn,
Am sêr y nen a hud y llwyn,
Am hun a breuddwyd lawn o swyn –
Diolch i'r Iôr.

Diolch i'r Iôr am gadarn nerth
Ei ofal Ef ar lwybrau serth,
Ac am fendithion mawr eu gwerth –
Diolch i'r Iôr.

D.T. EVANS[9]

Cyfeiriwyd at y Parchedig Jonah Evans, Llansawel yn hanes y Parchedig Evan Jones, Crug-y-bar. Dyma benillion coffa iddo gan un o blant Esgairdawe:

*Deigryn ar ei Fedd*
GAN Y PARCHG. D. DERWENYDD MORGANS, KANSAS,
Awdur y Nofel Ddirwestol, A Welsh Doctor

Draw i'r fynwent ger y pentref,
  Gyda thorriad gwawr y dydd,
Af i blannu tlysion flodau
  Gyda deigryn ar fy ngrudd;
Plentyn Duw sydd yno'n huno
  Wedi gorffen diwrnod gwaith,
Engyl nef sydd yno'n gwylio,
Dagrau torf sydd yn disgleirio
  Heddyw wrth ei feddrod llaith.

Jonah Evans o Lansawel,
  Cyfaill anwyl, Cristion gwiw,
Huna'n dawel yn y gorwel
  Hyd udganiad udgorn Duw;
Mae ei lais ef wedi tewi
  Yma yn yr anial maith;
Ond mae'i fywyd yn llefaru,
Eto wrth ieuenctid Cymru,
  I'w symbylu gyda'r gwaith.

Yr oedd purdeb ei gymeriad
  Ar ei lwybrau oll yn hardd,
A'i ddiwyro ymarweddiad
  Fel perarogl blodau gardd;
Nid fel bechan nant y mynydd
  Ydoedd ei ddynoliaeth ef:
Ond fel afon fawr ysblennydd
Yn ymdroelli drwy y dolydd,
  Tan brydferthwch aur y nef.

Teithiai'n nerth ei benderfyniad,
  Ymhyfrydai yn ei waith,
Dringo fyny byddai'n wastad,
  Casglu blodau ar y daith;
Boreu oes ni chafodd freintiau, –
  Dechreu'n isel ar y llawr,
Anhawsterau drôdd yn risiau
Iddo ddringo pen y bryniau
  Fyny i'r uchelder mawr.

Fel pregethwr 'roedd yn rymus
  Yn y cylch ar hyd ei oes,
Ymddadrysai bynciau dyrys
  Athrawiaethau pur y Groes;
Nid mewn rhyw hyawdledd doniau
  'Rydoedd ei gadernid ef,
Nac mewn nerthol groch-floeddiadau,
Ond yn sylwedd ei bregethau,
  Oeddynt fel aur emau'r nef.

Llenor coeth, myfyriwr cyson,
  Plentyn yr athrylith gref,
Ac y mae'i gynhyrchion tlysion
  Yn amlygu'i allu ef;
Nid yn ysgafn nofio'r tonnau
  Yn ddiymdrech 'roedd ei fryd,
Ond yn plymio i ddyfnderau
Môr gwybodaeth am aur berlau, –
  Perlau yr ysbrydol fyd.

Yn ei Goleg Gramadegol
  Athro oedd o dalent gref,
'Roedd nodweddion anhebgorol
  Y dysgawdwr ynddo ef:
Caredigrwydd pur fodolai
  Yn ei fynwes ar bob pryd,
Ie'nctyd Cymru yn ugeiniau
A arweiniodd fyny'r rhiwiau
  I ben bryniau addysg ddrud.

Bum gryn amser yn ei ysgol
  Yn myfyrio wrth ei draed,
Yfed o'i ddysgeidiaeth fuddiol,
  Ceisio dringo'n ngwydd y wlad:
Heddyw mae ei ysgolheigion
  Wedi gwasgar dros y byd,
Minnau groesais foroedd mawrion,
Ond yn aros mae'i gynghorion
  Ar fy nghôf yn fyw o hyd.

Mae'r pregethwr wedi tewi,
  Mae fy athro yn y bedd,
Mae fy nghalon yn hiraethu
  Na châf eto weld ei wedd;
Ond mae'i blant a'i ysgolheigion
  Eto'n aros gyda'r byw,
Ac fel gweision Iesu'n ffyddlon
Dros y byd yn traethu'n eon
  Fawrion weithrediadau Duw.

Ffarwel bellach, Gristion ffyddlon,
  Yn y ddaear cwsg mewn hedd,
Engyl gwynion ddônt yn gyson
  Yma'n llu i wylio'th fedd;
Ar dy ol 'rym ninnau'n dyfod
  Tua'r fynwent gam a cham,
Melus eto cawn gyfarfod
Yn y wlad uwch loes a thrallod,
  I glodfori'r Oen dinam.[10]

Diddorol yw croniclo'r penillion canlynol am yr enwog Kilsby Jones. Gellir eu canu ar yr alaw, 'Lili Lon':

Gwyddoch oll am enw Kilsby –
Gŵr o "Shirgar" eto'n Gardi –
Wedi'i fagu'n Ffaldybrenin
Aeth trwy "Goleg y Berth Eithin".

Cytgan:
Mab dwy sir oedd yn wir,
Mab dwy sir oedd yn wir,
Dyfodd fynu'n arwr Cymru
Garai'i defion fel y dur.

Gyda "Star" a morddwyd mochyn
A blawd ceirch naill ben i'r cwdyn
Teithiodd yntau'n llencyn hoyw
I Ben Banc ym mhlwyf Hen Fynyw.

Os Sir Gaer a fyn ei hawlio
Hawliwn ninnau beth ohono:
Neuaddlwyd o hyd adrodda
Wrth y plant ei droion smala.

Ar hanesion hen hen Gymru
Dotio'n lân a wnelai Kilsby:
Cynnes garai'r hen fynyddoedd
Bwyd a dillad yr hen oesoedd.

Cawr o feddwl, cawr o berson,
Arwr rhyddid Cymru dirion,
Gŵr i'w gofio'n hir a'i barchu,
Rhwng ei bryniau llwm yw Kilsby.

Tra'r hen wlad yn drist dan gwmwl,
Nemor un yn dweud ei feddwl,
Tros ein hawliau gweithiai Kilsby
'N galed nes i'r bore dorri.

Granellian
(Isaac Evans, Felin Blaenau, Llanwenog)[11]

Cofnodwyd hanes y Parchedig E. Tawe Jones eisoes. Yn ogystal â'i waith eglwysig, ymddiddorai mewn barddoniaeth. Dyma rai o'i gynhyrchion amrywiol:

a. *Rwy'n Hoffi*

I'r ysgol gynradd af bob dydd,
'Rwy'n hoffi myned yno,
Mam eilw arna i'r bore bach
I ddal y bws i'm cario.

'Rwy'n hoffi mynd i'r Band of Hope –
I fyddin plantos Cymru,
A gorymdeithio drwy y lle
Dan faner wen yr Iesu.

'Rwy'n hoffi mynd i'r Ysgol Sul
I ddarllen a sillebu
A dysgu hanes dynion Duw
Fu gynt yng ngwlad yr Iesu.

'Rwy'n hoffi mynd i'r Ysgol Gân
A'r côr nos Sul yn brydlon
Er canu'n beraidd yn yr ŵyl
Bob Sulgwyn yn Nhregaron.

'Rwy'n hoffi mynd i'r cwrdd bob Sul
I glywed sôn am Iesu
A "dweud adnodau" gyda'r plant
'Nol arfer gwerin Cymru.[12]

b. *Disgwyl Dadi Adre*

'Ryw nos yr oeddwn wrth y tân
Yng nghwmni mam a Tomi,
Yn disgwyl dadi i ddôd yn ôl
O'r môr i'r Felinheli.

Fe ddaeth a rhoddion o Glan-llyn,
A lluniau tlws o'r Bala,
'Roedd ganddo hefyd stori fawr
Ynglŷn â'r cwch pysgota.

Urdd Gobaith Cymru biau'r cwch,
Gwyn, coch a gwyrdd yw'r lliwiau
A beintiwyd arno, O! mae'n hardd,
Mae'n un o'r cychod gorau.

Fe 'roed y cwch i'r Urdd am ddim
Gan Gymro'n byw yn Llunden,
Mae dadi'n dweud fod ar y cwch
Yr enw Pantyfedwen.

Pan ddelo'r haf a'r cwch yn llawn
O adran Godre'r Mynydd,
Cawn drip ar fôr ac amser braf
A dadi yno'n llywydd.[13]

Meistrolodd Evan Tawe y gynghanedd, a dyma englyn a ymddangosodd yn ei gyfrol o farddoniaeth:

c. *Sedd y Pentre*

Y gleinwych bentre glanaf – yw ein Llan
Y lle godidocaf;
Ar ei sedd yr eisteddaf
Am oriau hir tymor haf.[14]

ch. *Y Baban Iesu*

Mewn ystabl y ganwyd Iesu,
Hyn yn wir sy'n hanes trist,
Rhoddwyd ef mewn preseb yno
Ond ni wyddai neb amdano
Mai Efe oedd Iesu Grist.

Wedyn aed ag Ef i'w gartre,
Nasareth – anfarwol le,
Yno cafodd ei wir fagu
Gan ei fam oedd yn ei garu –
Hi a gredodd air y Ne.

Baban ufudd ydoedd Iesu
I'w rieni – fwy na mwy –
Teimlo a gwrando eu gweddïau,
Dysgu salmau ac adnodau
Yn ôl arfer plant y plwy.

Wele, hwn yw'r Baban Iesu
Ddaeth o'r Nef i'n gwared ni,
Ef o hyd sy'n cynorthwyo,
Pawb a gred yn gadarn ynddo
Ant drwy ffydd i'r Ganan fry.[15]

Dyma emyn o'i waith, sydd i'w ganu ar y dôn, 'Gwên y Wawr' gan M. Eddie Evans, Manceinion – cyfansoddwr y dôn enwog Pantyfedwen:

d. O Arglwydd, rho gymorth dy ras
I ymbil am hedd a thrugaredd,
Ac awydd am ragor o flas
Ar lwybrau sancteiddrwydd a rhinwedd.
Ein braint ydyw hyn,
Yn wyneb yr aberth ar Galfari fryn;
O plygwn ynghyd
Mewn ympryd a gweddi i Grëwr y byd.

Yn dlawd yn y llwch wrth dy draed,
Mewn ysbryd a chalon ddrylliedig,
Gan gredu mai rhinwedd dy waed
Yw'r ffordd inni fod yn gadwedig.
  Am hyn gweddus yw
Cyfodi ein hallor a chanmol ein Duw;
  O plyged pob oes
I ddeisyf maddeuant yn haeddiant y Groes.[16]

Buddiol yw cynnwys rhai cerddi eraill o waith y bardd lleol, Thomas Jones, Gwar-coed, – un o'r pererinion y croniclwyd eu hanes yn y bumed bennod:

a. *O Sŵn y Byd*

A thithau'n caru twrf y dref
  Lle treuliaist gynt dy febyd gwyn,
Na feia'r bachgen sydd â'i serch
  Ynghlwm wrth hendy ar y bryn:
A phaid â thorri ar ei hedd
  O'i weld yn bendrwm ar y stryd,
Mae ef yn dawel gyda'r ŵyn
    O sŵn y byd.

Di, swyddog balch, na ddwrdia'r llanc
  Am ffaelu trafod offer trin;
Rho gorn yr aradr yn ei law
  A gwêl ei gŵys ar fraenar crin;
Ni ddysgwyd iddo ladd ei frawd, –
  Plannwyd tangnefedd lond ei fryd
Pan dorrai'r grawn ar gefn y grwn
    O sŵn y byd.

Ciliwch am ennyd, fechgyn, trowch,
  Mae'r gŵr am ffoi o gartre'r ddawns;
Ni chydfydd cân ei enaid ef
  A nodyn cras y chwarae siawns:
Cedwch eich maswedd feddwon ffol, –
  Rhy floesg eich offerynnau i gyd
I un a ddysgodd gerddi'r wawr
    O sŵn y byd.

Nid yw ei archoll fawr o ddim,
  Can's yn ei enaid blin mae'r graith,
Ac nid oes feddyg yn y byd
  Na chlafdy a all ei wella chwaith;
Mae llannerch rugog draw ar fryn
  Ac ar ei chyfyl hendy clyd;
Dygwch ef yno i wella'i glwy
    O Sŵn y byd.[17]

b. *"Pentalar"*

Oedwn gynt yn fynych ar ben talar,
  Syllwn dros fy ngrwn yn hir a dwys;
Mynnwn petai modd i'm guddio'r creithiau
  Ac unioni crib pob gwyrgam gŵys.

Beunydd trown i'r maes ag ynni newydd
  O weld wyneb teg y gwndwn glas;
Methiant aml oedd gorau llaw a llygad,
  Dan yr wyneb 'roedd y cerrig cas.

Syllu eto'n euog ar y balciau
  Ofni tywyn haf heb donnau ŷd;
Pwy a fesur falchder llanc o ganfod
  Tirion gnwd yn cuddio'r creithiau i gyd?

Oedaf heno'n henwr ar ben talar,
  Draw o'm hôl mae llawer gŵyr a nam;
F'unig obaith bellach ydyw cofio
  Euraid gnwd yn tonni ar gwysi cam.[18]

c. *Y Ffin*

Cychwyn yn blentyn o hendre'i fam
A'i freuddwyd pêr yn cyflymu'i gam.

Athrylith ei hunan yn gloywi'i ffydd
Ar lwybr dieithr y gwyddorau cudd.

Ac wrth agoryd ei seliau hwy
Canfod sianelau dirgelion mwy.

Ymateb i'w her heb deimlo'r straen,
A duwies dysg yn tywys ymlaen.

Llithro drwy'r ffin ar or-eiddgar gam –
A phlentyn o hyd sydd yn hendre'i fam.[19]

## Pigion o Ddyddiadur Abel Thomas, Bryndifyr

Nid rhywbeth a ddaeth yn gyffredin yn ein dyddiau ni yw cadw dyddiadur. Un o'r rhai a wnai hynny yn ystod y ganrif ddiwethaf oedd Abel Thomas, ysgrifennydd y capel, 1924-35.

Fel y cyfeiriwyd eisoes, cynhelid Ysgol Sul a chyrddau gweddi yng nghartrefi'r fro yn y cyfnod hwnnw. Yr arferiad oedd cynnal Ysgol Sul yn y bore a'r prynhawn bob yn ail Sul a chwrdd yn yr un modd, yn ogystal â chwrdd bob nos Sul. Wrth gwrs, fe'u cynhelid yn y capel yn eu tro ac yno y cynhelid y cyrddau mawr, sef y Cymundeb.